MENTRAU IAITH

# Canllawiau Magi Ann




## Cefndir a Chanllawiau Defnyddio Magi Ann

**Canllawiau Magi Ann yn cynnwys:**

1. **Gwybodaeth Gefndir**
2. **Apiau Magi Ann**
3. **Taflenni Gwybodaeth**
4. **Hawlfraint a Nod Masnach**
5. **Mathau o Sesiynau**
6. **Siwtiau Magi Ann**
7. **Adnodau a Nwyddau Ychwanegol**

Os oes cwestiwn gennych am gynnal digwyddiad Magi Ann bydd Maiwenn o Fenter Iaith Fflint a Wrecsam yn hapus i sgwrsio gyda chi – maiwenn@menterfflintwrecsam.cymru neu 01352 744040

Ebrill 2022

## 1. Gwybodaeth gefndir

Ymddangosodd y cymeriadau hoffus Magi Ann a'i Ffrindiau yn wreiddiol mewn llyfrau bach syml du a gwyn i blant yn ôl yn yr 1970au. Ysgrifennwyd y llyfrau gan yr athrawes Mena Evans ar ôl iddi sylweddoli fod y plant angen adnodd i'w helpu gyda'u darllen. Degawdau yn ddiweddarach soniodd athrawon yr ardal wrthon ni nad oedd rhieni di-Gymraeg yn gallu darllen llyfrau Cymraeg gyda'u plant gan nad oeddent yn gwybod sut i ynganu'r geiriau.  Oherwydd hynny penderfynodd Menter Iaith Fflint a Wrecsam weithio gyda Mena a chwmni 'Sbectol cyf' i greu ap wedi'i seilio ar y storïau hynny i helpu plant i ddysgu darllen yn y Gymraeg a rhieni di-Gymraeg ddarllen gyda nhw.

Cafodd yr ap cyntaf ei lansio fis Tachwedd 2014 gyda phump arall yn dilyn yn fuan yn sgil poblogrwydd ysgubol yr un cyntaf. Bellach mae 5 ap (gyda chyfanswm o 40 stori syml) ar gyfer plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac un wedi anelu at ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (gyda 12 stori syml). Gan ddefnyddio'r apiau mae modd darllen y storïau ar y sgrin neu wrando ar leisiau yn eu hadrodd. Mae rhieni di-Gymraeg, neu rheiny sy'n dysgu'r Gymraeg, yn gallu pwyso ar fotwm i weld cyfieithiad Saesneg o'r geiriau neu frawddegau, neu gyffwrdd geiriau unigol i glywed sut i'w hynganu yn y Gymraeg.

Mae apiau Magi Ann bellach ar gael am ddim i holl blant Cymru a ledled y byd. Mae jig-sos, gemau geiriau a thudalennau lliwio Magi Ann hefyd ar gael ar yr apiau.  Erbyn hyn mae'r apiau wedi eu lawrlwytho dros **400,000** o weithiau!



## 2. Apiau Magi Ann

Mae 6 ap Magi Ann a'i Ffrindiau wedi eu datblygu hyd yn hyn diolch i grantiau gan y Loteri Fawr, Cronfa Glyndŵr a'r Gronfa Datblygu Gwledig. Mae'n bosib eu lawrlwytho ar declynnau Apple ac Android am ddim o'r App Store a'r Play Store.

Mae Magi Ann hefyd ar Twitter @ApMagiAnn ac ar Facebook, www.facebook.com/apmagiann ble gall dilynwyr weld lluniau a chael gwybodaeth am ddigwyddiadau ble bydd Magi'n ymddangos.

## 3. Taflenni Gwybodaeth

Mae Taflenni Gwybodaeth dwyieithog ar gael i'w dosbarthu i'r cyhoedd gyda manylion am yr apiau a sut i'w lawrlwytho. (Gweler pwynt 6 isod – Nwyddau Defnyddiol)

## 4. Hawlfraint a Nod Masnach

Fel awdures y gyfres mae gan Mena Evans yr hawlfraint a'r nod masnach ar gyfer holl straeon Magi Ann, ond yn garedig iawn, mae hi wedi rhoi caniatâd i'r Mentrau Iaith defnyddio nifer o adnoddau megis siwtiau Magi Ann, llyfrynnau gweithgareddau, cut-outs, magnedau, tatŵs, 'cake toppers' a sticeri yn seiliedig ar y straeon er mwyn hybu'r iaith Gymraeg.  (Gweler pwynt 7 isod – Adnoddau a Nwyddau Defnyddiol)

## 5. Mathau o sesiynau

Gall gymeriad Magi Ann ymddangos i ddiddanu teuluoedd mewn amryw fath o ddigwyddiadau.

**Mewn digwyddiadau mwy e.e. diwrnodau hwyl**

Gall ymddangosiad Magi Ann ddenu cynulleidfa i'ch stondin mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan eraill e.e. sioe amaethyddol leol, gwyliau tref, carnifal ayyb.

Beth am drefnu bwrdd crefft ble gall blant liwio'r lluniau? Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi siarad gyda'r rhieni am yr apiau a rhoi taflen wybodaeth iddynt. Os nad oes gennych stondin, beth am i dywysydd Magi Ann roi sticeri i blant a thaflen wybodaeth i'r rhieni wrth i Magi roi 'pawen lawen' neu gwtsh?

**Amser Stori Magi Ann**

Os oes gennych chi sawl tabled er mwyn defnyddio'r ap gall blant rannu a darllen gyda'i gilydd o'r tabled. Neu beth am i chi adrodd y storïau gan

ddefnyddio pypedau Magi Ann? Mae rhoi sticer i bob plentyn ar ôl darllen yn eu gwobrwyo am eu gwaith da yn darllen yn y Gymraeg.

Cofiwch fod storïau gwahanol ar apiau Magi Ann i gyd-fynd ag adegau gwahanol o'r flwyddyn, felly gellir addasu eich sesiynau a'ch caneuon yn ôl y cyfnod, e.e. Stori y Nadolig, Stori y Pasg, Stori Cyngerdd Gŵyl Ddewi ayb.

Gallwch ddod â chymeriadau'r storïau mewn i ganeuon syml gan ganu 'Helo Magi Ann' neu 'Helo Doli' ayb i gyflwyno'r cymeriadau.

**Helfa Drysor neu Bicnic Magi Ann**

Mae hyn yn rhywbeth hwyliog i'w wneud ar wyliau arbennig e.e. y Pasg. Beth am guddio cymeriadau o storïau Magi Ann o gwmpas gardd/parc chwarae a chael y plant i'w darganfod?

Syniad arall yw cynnal picnic Magi Ann i deuluoedd mewn parc gwledig lleol. Gall pawb ddod â'u bwyd eu hunain a gall y Fenter gynnig cacen i bawb gyda "caketopper" Magi Ann. Neu beth am gynnig picnic Magi Ann amser cinio mewn ysgolion neu feithrinfeydd lleol?

# 6. Siwtiau Magi Ann

## Pwrpas

Mae defnyddio siwtiau Magi Ann yn codi proffil y cymeriad ac yn denu sylw at yr apiau mewn digwyddiadau arbennig neu fel rhan o ddigwyddiadau mwy.

## Math o sesiynau

- Amser stori: Defnyddio'r apiau Magi gyda phlant a rhieni
- Parti Magi Ann
- Picnic Magi Ann
- Helfa Drysor Magi Ann

## Cymeriad Magi Ann

Mae Magi Ann yn gymeriad cyfeillgar, bywiog, lliwgar, hoffus, chwareus. Mae Magi yn hoffi rhoi 'pawen lawen', chwythu cusan, rhoi cwtsh a chodi llaw.

## Ond!  Dylid cofio!

Mae Magi Ann wedi colli'i thafod
Dydy'r plant ddim eisiau clywed llais y person tu fewn y siwt siŵr!

Mae angen help llaw ar Magi Ann
Bydd angen cymorth tywysydd ar Magi Ann o hyd fel nad ydy'n disgyn neu'n baglu dros blentyn bach!

Mae Magi Ann angen hoe fach hefyd!
Gall y siwtiau fod yn boeth iawn, yn enwedig ar ddiwrnod heulog, felly bydd angen hoe ar y person sydd yn y siwt ar ôl 20 munud.

Dydy Magi Ann ddim yn hoffi glaw!
Dydy'r siwtiau ddim wedi'u gwneud o ffabrig gwrth-ddŵr felly peidiwch â mentro allan i'r glaw gyda Magi Ann neu bydd hi'n wlyb sops ymhen dim.

Mae Magi Ann yn hoffi edrych yn daclus
Sicrhewch bod gwallt y person tu fewn y siwt wedi ei guddio a'r coler wedi ei osod yn daclus yn y cefn.  Peidiwch byth a gwisgo y siwt heb fod yr holl elfennau gyda chi. Does neb eisiau gweld Magi Ann yn gwisgo jîns yn lle ei 'sanau!!

## Archebu siwt

Bellach mae 6 siwt Magi Ann yn eiddo'r Mentrau – 4 sydd yn berchen i Fentrau'r gogledd (Fflint a Wrecsam, Môn a Sir Ddinbych) a 2 sydd wedi eu prynu gan MIC ar gyfer defnydd Mentrau'r de ac i'w hurio allan i fudiadau eraill.

Bydd Mentrau'r gogledd yn parhau i ddefnyddio eu systemau archebu eu hunain sydd eisoes mewn lle. Rydym wedi creu calendr newydd ar gyfer siwtiau'r de sy'n cael ei reoli gan Heledd ap Gwynfor. Cysylltwch â Heledd (heledd@mentrauiaith.cymru)os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'r siwt. Cofiwch ystyried amser a modd ar gyfer cludo'r siwt.

## Gwisg Magi Ann



Mae'r wisg yn cynnwys:
- Pen
- Ffrog
- Dwylo
- Esgidiau
- Sanau streipiog.

Cofiwch hefyd all y wisg fynd yn boeth iawn felly peidiwch â gwisgo dillad trwm oddi dan y wisg, bydd fest neu grys-t yn ddigon. Mae'r sanau streipiog yn edrych orau heb drowsus oddi tanynt, ond os na hoffwch wneud hyn, gallwchwisgo teits neu siorts oddi tanynt.

### Cadw, Cynnal a Thrwsio

Cafodd y siwtiau eu creu gan gwmni 'Frenzy Creative Limited' http://www.frenzycreative.co.uk/

Maent hefyd yn y cynnig gwasanaethau trwsio a glanhau. Mae modd cysylltu â nhw drwy e-bostio studio@frenzycreative.co.uk a byddant yn danfon bocs digon mawr am y darn/au sy angen sylw (fel pecyn fflat) ac yna drefnu i'w gasglu a dychwelyd.

## 7. Adnoddau a Nwyddau Ychwanegol

Mae nifer o adnoddau a nwyddau ar gael i'ch helpu i gynnal digwyddiadau, gweithgareddau a phartïon Magi Ann yn llwyddiannus. Mae rhai ar gael i'w lawrlwytho am ddim trwy'r dolenni isod, mae eraill ar gael i'w prynu drwy Menter Iaith Fflint a Wrecsam*. Os ydych am archebu nwyddau dylid cysylltu â gwen@menterfflintwrecsam.cymru

*Costau'n gywir ar ddiwedd Tachwedd 2021, mae'n bosibl byddant yn newid o bryd i'w gilydd.


**Cut Outs Cymeriadau Magi Ann a'i ffrindiau - £234 am y set (£195 i elusennau)**

| | |
|---|---|
| Magi Ann | 117cm |
| Doli | 78cm |
| Tedi | 67cm |
| Pero | 67cm |
| Dicw | 54cm |
| Geiriau | 99cm (ar draws) |

Mae'r ffigyrau hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cynnal digwyddiadau megis Helfa Drysor Magi Ann – maen nhw'n gallu cael eu gosod mewn gwahanol leoliadau mewn parc, coedwig neu ystafell a'r plant yn gorfod dod o hyd iddyn nhw. Mae taflenni 'Helfa' ar gael i'w lawrlwytho er mwyn hwyluso cynnal gweithgareddau o'r fath (gweler isod)

# Canllawiau
# Magi Ann






**Taflenni 'Helfa Drysor Magi Ann' (am ddim)**
https://drive.google.com/file/d/1f2fl498Bpx22aRdD81K3GGT7kL6bT-Oe/view?usp=sharing

**Lluniau Lliwio (am ddim)**
Mae nifer o luniau ar gael i'w lawrlwytho i blant gael eu lliwio mewn digwyddiadau:
https://drive.google.com/file/d/1YnHHP3sX6r2nMlOn_hLx6xS-fkKNvhCz/view?usp=sharing?


**Templedi Cardiau Nadolig Magu Ann (am ddim)**
https://drive.google.com/file/d/10LVWI0qiEvGS-PCve_ZUbjQqVamQjoPK/view?usp=sharing

Ebrill 2022

**Sticeri Cymeriadau Straeon Magi Ann - £26.00 am 500**




**Llyfryn Gweithgareddau – £15 am 100**



# Canllawiau
# Magi Ann

**Taflenni Hyrwyddo - £15.00 am 500**




**Tatŵs – £13 am 100**



# Canllawiau Magi Ann

**Llun Magi Ann ar Bapur Reis Bwytadwy (Cake Toppers) - £12.00 am 100**






**Magnedau Magi Ann - £1.30 yr un**

